OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 713

## Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010

## RHAN 2

Sefydlu Tribiwnlys Prisio Cymru

**Cadeiryddion y Tribiwnlys Prisio**

**12.**—(1) Pennir y nifer o aelodau'r Tribiwnlys Prisio sydd i'w penodi i swydd Cadeirydd gan y Tribiwnlys Prisio.

(2) Bydd y Llywydd yn un o'r Cadeiryddion a rhaid i aelodau Tribiwnlys Prisio yn unol â Rhan 1 o Atodlen 2, ond yn ddarostyngedig i reoliad 22, benodi gweddill nifer y Cadeiryddion o fewn y cyfnod rhagnodedig, drwy eu hethol o blith eu nifer.

(3) Ar ddiwedd y cyfnod rhagnodedig, os na fydd etholiad wedi ei gynnal yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid i Weinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r Llywydd, benodi'r nifer priodol o aelodau i fod yn Gadeiryddion.

(4) Bydd Cadeirydd a benodir dan y rheoliad hwn yn dal y swydd hyd nes digwydd pa un bynnag o'r canlynol sy'n digwydd gyntaf —

(a) y Cadeirydd hwnnw'n peidio â bod yn aelod o'r Tribiwnlys Prisio;

(b) y Cadeirydd hwnnw'n ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Llywydd;

(c) hysbysiad terfynu o dan baragraff (5) yn cael effaith.

(5) O ran y Llywydd—

(a) caiff, ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Llywodraethu, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Gadeirydd, derfynu swydd y Cadeirydd hwnnw; a

(b) rhaid iddo, os cyfarwyddir ef i wneud hynny gan Weinidogion Cymru, roi i Gadeirydd hysbysiad ysgrifenedig sy'n terfynu swydd y Cadeirydd hwnnw, a bydd yr hysbysiad yn cael effaith ar ddiwedd pa bynnag gyfnod y cyfarwyddir felly.

(6) Cyn rhoi cyfarwyddyd dan baragraff (5)(b) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Llywydd.

(7) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "y cyfnod rhagnodedig" ("*the prescribed period*") yw tri mis sy'n cychwyn pan fo swydd yn mynd yn wag ymhlith y nifer rhagnodedig;

ystyr "y nifer rhagnodedig" ("*the determined number*") yw'r nifer a bennir gan y Tribiwnlys Prisio yn unol â pharagraff (1);

ystyr "y nifer priodol" ("*the appropriate number*") yw'r nifer a bennir, llai'r nifer sydd ar y pryd yn dal swydd Cadeirydd.